# Strategaeth **Rhaglenni Cyhoeddus**

# 2022-27

# Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus, 2022-27

## Cynnwys


**1. Crynodeb Gweithredol** 3

**2. Diben** 6

**3. Nodau ac Effeithiau** 7

Cynrychioli pawb 7

Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes 9

Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd 11

Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli 12

Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol 13

Creu cysylltiadau ar draws y byd 13

**4. Dulliau Gweithio** 14

**5. Mesur ac Adrodd** 15

**6. Rhagdybiaethau a Heriau** 16

**7. Atodiad** 17

**7.1 Cynllun Gweithredu** 17

**7.2 Adnoddau** 38

**7.3 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** 39

# 1. Crynodeb Gweithredol

**Yn Amgueddfa Cymru, credwn fod cyfranogiad diwylliannol yn hawl ddynol sylfaenol. Mae ein casgliadau, ein hamgueddfeydd a'n platfformau digidol yn adnoddau cyhoeddus i ysbrydoli dysgu a chreadigrwydd.**

Erbyn 2027, ein huchelgais yw y bydd Amgueddfa Cymru yn fan lle gall pobl o bob oedran a chefndir fynegi'u hunaniaeth, eu dawn a'u creadigrwydd eu hunain ar eu telerau eu hunain. Bydd rhaglenni'n cael eu cyd-gynhyrchu gyda phobl sy'n dod at ei gilydd i ddathlu treftadaeth ddiwylliannol amrywiol a chyfrannol Cymru, a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, gweithredu amgylcheddol a'r Gymraeg. Mewn Cymru fwy cyfartal, Cymru nad yw'n goddef hiliaeth nac ablaeth, bydd ein rhaglenni'n canolbwyntio ar gydraddoldeb canlyniadau, gan sicrhau bod pobl wedi'u cynrychioli'n llawn, ac yn gwneud penderfyniadau, yn creu ac yn cymryd rhan.

Datblygwyd y Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig i gefnogi Amgueddfa Cymru 2030 a'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad, ein cyfrifoldebau tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymraeg 2050, y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, a'n Llythyr Cylch Gwaith.

Mae rhaglenni cyhoeddus Amgueddfa Cymru yn cynnwys digwyddiadau, arddangosfeydd, darpariaeth addysg i ysgolion a dysgu gydol oes, cyhoeddiadau a gwirfoddoli. Maent hefyd yn canolbwyntio ar fentrau i gyflawni iechyd a lles ac ehangu ymgysylltiad ag unigolion, grwpiau a chymunedau. Amgueddfa Cymru yw darparwr addysg tu allan i'r ystafell ddosbarth mwyaf Cymru, a chyn y pandemig roedd 200,000 o ddisgyblion ysgol a myfyrwyr yn defnyddio ein gwasanaethau. Cydnabyddir ein Rhaglen Wirfoddoli fel un o'r goreuon yn sector treftadaeth y DU, gan ennill statws Buddsoddwyr mewn Gwirfoddoli ers 2015. Rydym hefyd yn gartref i leoliad arddangosfeydd teithiol mwyaf Cymru yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar ddatblygu ein safle fel darparwr rhaglenni diwylliannol arweiniol yng Nghymru, trwy fod yn fwy beiddgar, yn fwy creadigol, yn fwy cysylltiedig ac yn fwy cydweithredol yn ein gwaith. Ar hyn o bryd, mae rhwydwaith o dros 200 o bartneriaid lleol a chenedlaethol ynghlwm â datblygu a chyflwyno ein rhaglenni. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar yr angen i gynnal ein partneriaethau â chyrff cenedlaethol eraill, darparwyr sector cyhoeddus a'r trydydd sector, cryfhau ein partneriaethau â sefydliadau llawr gwlad ac adeiladu ar y bartneriaeth lwyddiannus ddiweddar gyda Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru (y Ffed) i gyd-gyflawni rhaglenni ledled Cymru.

Mae effaith Covid-19 ar anghenion a disgwyliadau cyfranogwyr a'r dulliau ymgysylltu wedi bod yn sylweddol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, cafwyd cynnydd sylweddol mewn cyfranogi digidol trwy ddatblygu rhaglenni hybrid a rhaglenni digidol newydd. Wrth i weithgarwch wyneb yn wyneb ailddechrau dros y chwe mis diwethaf, mae'r tueddiadau yn dangos adferiad mewn cyfranogiad wyneb yn wyneb ochr yn ochr â galw parhaus am gyfleoedd i gyfranogi'n ddigidol. Mae'r arolwg archwilio rhaglenni a gynhaliwyd cyn ac yn ystod Covid wedi dangos cyfleoedd i leihau rhai rhaglenni oedd yn llai effeithiol cyn-Covid. Mae hefyd wedi cadarnhau cyfleoedd i ehangu rhaglenni hybrid ymhellach. Yn sgil sefydlu'r Tîm Craffu ar Gynulleidfaoedd, rydym bellach yn gallu ystyried tueddiadau'r dyfodol, datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o natur ac anghenion ein defnyddwyr a mesur effaith ein gwaith.

Mae ehangu ymgysylltiad ag unigolion a chymunedau sy'n dioddef anfantais ledled Cymru yn ganolog i'n gwaith. Bu effaith y pandemig yn ddifrifol, gan ddatgelu a dyfnhau anghydraddoldebau cyfleoedd i blant, pobl ifanc ac oedolion ledled Cymru. Fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, rhaid i'n ffocws ni fod ar alluogi mwy o bobl – ac ystod ehangach o bobl – i ddod yn rhan o'n gwaith. Fel yr amlinellwyd yn ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad, a gyhoeddwyd ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru, rydym wedi ymroi i ddatblygu dull ar gyfer diwylliant a threftadaeth sy'n ymgysylltu'n rhagweithiol ag unigolion a chymunedau ledled Cymru wrth benderfynu beth yw diwylliant, ble mae'n digwydd, a phwy sy'n ei greu ac yn ei brofi.

Mae buddion cyfranogiad diwylliannol yn llwyr drechu buddion treuliant diwylliannol. Gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae ein rhaglenni cyhoeddus yn canolbwyntio'n benodol ar yr anghydraddoldebau canlynol, lle gallem ni fel amgueddfa gael effaith:

- addysgol
- iechyd a lles
- mynediad i wasanaethau dwyieithog.

Mae'r strategaeth yn cydnabod mai adnoddau a chyllideb penodol sydd gan Amgueddfa Cymru i'w buddsoddi. Felly, mae'n dynodi sut y byddwn yn blaenoriaethu cynnal rhaglenni cyhoeddus dros y pum mlynedd nesaf ac ym mha feysydd. Mae'n dangos ein huchelgais, ond hefyd yn nodi lle bydd rhaid canfod adnoddau ychwanegol neu ailddyrannu adnoddau er mwyn gwireddu'r uchelgais honno.

[1] Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad | Amgueddfa Cymru

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol er mwyn:

- Adennill defnyddwyr a chynulleidfaoedd cyn-Covid Amgueddfa Cymru
- Cynnal ac ehangu cyrhaeddiad Amgueddfa Cymru ymhlith defnyddwyr a chynulleidfaoedd newydd cyfnod Covid, gyda ffocws penodol ar groestoriadedd pobl ifanc, unigolion a grwpiau LHDTC+, amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd, sydd dan anfantais economaidd, B/byddar ac anabl
- Adolygiad strategol o'r rhwydwaith o bartneriaethau hyperleol, lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ac ehangu'r rhwydwaith, gan sicrhau presenoldeb gwell mewn awdurdodau lleol lle nad oes amgueddfa genedlaethol yn bodoli
- Adeiladu ar ein model darparu rhaglenni dwyieithog gan ymgorffori dull lluosieithog a mabwysiadu Iaith Arwyddion Prydain fel trydedd iaith wrth gynnal ein rhaglenni
- Cadarnhau Amgueddfa Cymru fel darparwr arweiniol rhaglenni diwylliannol yng Nghymru a gwella gwelededd yn rhyngwladol.

Mae cynnal rhaglenni cyhoeddus o ansawdd uchel yn gwella adnabyddiaeth brand a phroffil Amgueddfa Cymru yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig yn pennu cyfeiriad ar gyfer rhaglenni cyhoeddus Amgueddfa Cymru dros y pum mlynedd nesaf, gweler Atodiad 7.1.

# 2. Diben

**Prif ddiben Rhaglen Gyhoeddus Amgueddfa Cymru yw cefnogi'r addewidion canlynol o Amgueddfa Cymru 2030 yn uniongyrchol:**

- Cynrychioli pawb
- Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes.

Mae'r Rhaglenni yn cefnogi datblygu'r ymrwymiadau canlynol hefyd:

- Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd
- Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli
- Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol
- Creu cysylltiadau ar draws y byd.

Bydd ein dulliau gweithio yn arddel gwerthoedd Amgueddfa Cymru, sef cyfrifoldeb, gonestrwydd, creadigrwydd, tegwch a chydweithio. Caiff cynnwys y rhaglenni cyhoeddus ei ddatblygu ar y cyd â chyfranogwyr a/neu bartneriaid, ac mae wedi'i wreiddio yn amrywiaeth diwylliant, iaith a syniadaeth Cymru.

Mae'r strategaeth hon yn gydnaws â strategaethau adrannol eraill ac mae'n ddibynnol ar ddatblygu seilwaith a mentrau newydd, megis y system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, gwefan newydd, gwell mynediad a phrofiadau i ymwelwyr, dad-drefedigaethu a digideiddio'r casgliadau, a pharhau i ddatblygu ein staff a'n gwirfoddolwyr.

Mae'r Tîm Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus hefyd yn cefnogi gweithgarwch strategaethau corfforaethol eraill, megis cynyddu cyrhaeddiad digidol, twristiaeth ddiwylliannol a chynhyrchu incwm.

# 3. Nodau ac Effeithiau

Byddwn yn datblygu'r nodau a ganlyn fel mater o flaenoriaeth i gefnogi addewidion Amgueddfa Cymru 2030. Nodwyd yr effeithiau arfaethedig a sampl o weithgareddau hefyd. Gweler Atodiad 7.1 am y Cynllun Gweithredu manwl a holl weithgarwch 2022/23, 2023/24 a 2024-27. Mae'r cynllun yn seiliedig ar ein hadnoddau presennol. Caiff nifer o raglenni eu cyflwyno gyda chymorth gan gyllidwyr ariannol, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, gweler Atodiad 7.2 am fanylion. Mae mentrau newydd yn ddibynnol ar sicrhau cyllid ychwanegol. Mae'r Cynllun Gweithredu yn rhoi'r manylion a'r buddsoddiad sy'n ofynnol yn yr adnoddau a'r seilwaith i gynyddu ein cyrhaeddiad a'n henw da.

## Cynrychioli pawb

| Nod | Enghreifftiau o weithgarwch | Effaith | Dulliau mesur |
|---|---|---|---|
| **Dathlu amrywiaeth** | Cyd-ddylunio a chynnal digwyddiadau, arddangosfeydd a chyhoeddiadau gyda sefydliadau cymunedol llawr gwlad gan ymgysylltu ag unigolion amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd a chreu cyfleoedd iddynt fynegi'u creadigrwydd, eu treftadaeth a'u hunaniaeth ar y cyd ag Amgueddfa Cymru<br><br>Cynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd ar y cyd â phobl LHDTC+, pobl F/fyddar, a/neu bobl sy'n byw mewn ardaloedd dan anfantais economaidd | Rhaglenni yn naturiol ddwyieithog, cynhwysol, gwrth-hiliol a gwrth-ablaidd<br><br>Cymunedau yn ffurfio a llywio eu profiadau diwylliannol eu hunain ac yn cynnig cyfleoedd i gydweithio gydag Amgueddfa Cymru<br><br>Pobl a digwyddiadau sydd â chyswllt hanesyddol hysbys â chaethwasiaeth a threfedigaethu yn cael eu portreadu mewn ffordd wrth-hiliol sy'n cydnabod anghyfiawnderau hanesyddol<br><br>Gwell mynediad i brofiadau Amgueddfa Cymru ar gyfer pobl ym mhob rhan o Gymru | **Meintiol**<br>Cynnydd mesuradwy mewn partneriaethau/ ymgysylltiad â chyrff cymunedol llai<br><br>**Ansoddol**<br>Lefelau bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arddangos naratifau hanesyddol sy'n hyrwyddo ac yn adrodd am y gorffennol a'r presennol mewn modd cytbwys, dilys a dad-drefedigaethol yn arddangosfeydd Amgueddfa Cymru** | Gweithio gyda chymunedau, pobl ifanc ac ymarferwyr creadigol i gyflawni Cynllun Gweithredu tair blynedd sy'n canolbwyntio ar ddad-drefedigaethu ac ail-arddangos ein harddangosiadau a'n harddangosfeydd cyhoeddus er mwyn adrodd straeon trwy lens cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd, mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru (yn amodol ar gyllid)<br>Blas ar arddangosfeydd a gynhyrchwyd ar y cyd:<br>• *Ail-fframio Picton* gyda'r Panel Cynghori Is-Sahara (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd) | Naratifau hanesyddol mewn arddangosiadau ac arddangosfeydd wir yn cynrychioli natur gyfoethog ac amrywiol ein treftadaeth gyffredin<br><br>Cymunedau'n adrodd y caiff lleisiau'r rheiny a esgeuluswyd yn naratifau hanesyddol y gorffennol a'r presennol eu hamlygu a'u dathlu<br><br>Pobl yn adrodd bod cynnwys rhaglenni cyhoeddus yn fwy sensitif, hygyrch a theg ac yn wrth-hiliol<br><br>Cyfranogwyr/ defnyddwyr/cynulleidfaoedd yn cynrychioli poblogaeth Cymru | **Meintiol**<br>Cynnydd mesuradwy mewn partneriaethau/ymgysylltiad â sefydliadau cymunedol llai<br>Nifer sy'n ymweld ag arddangosfeydd<br>**Ansoddol**<br>Gwerthuso<br>Astudiaethau Achos |
| **Dysgu am amrywiaeth ddiwylliannol, ac adnabod a dathlu amrywiaeth ddiwylliannol gyfoethog ein cymdeithas** | Cynnal rhaglenni ysgol a chyhoeddi adnoddau ar-lein i ddathlu cyfraniad cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd ddoe a heddiw<br>Creu adnoddau a rhaglenni newydd ar-lein gydag ysgolion ar Hwb | | **Meintiol**<br>Nifer sydd wedi edrych a lawrlwytho adnoddau<br>**Ansoddol**<br>Lefelau bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos |
| **Cydweithio â sefydliadau llawr gwlad, lleol a chenedlaethol gan gynnwys y Ffed i roi rhaglenni partneriaeth ar waith** | Cynnal menter Ail-ddweud Stori'r Cymoedd mewn partneriaeth ag Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa ac Ymddiriedolaeth Amgueddfa ac Oriel Cwm Cynon<br>Mapio gweithgarwch yr Amgueddfa ledled Cymru, a datblygu cynllun â chostau gyda phartneriaid mewn awdurdodau lleol lle nad oes amgueddfa genedlaethol, i gynnwys:<br>• Cynllun busnes ar gyfer arddangosfeydd teithiol ledled Cymru<br>• Datblygu modelau cydweithio ymhellach gyda'r Ffed<br>• Adolygu rhesymwaith a phresenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol a chenedlaethol | | **Meintiol**<br>Nifer sydd wedi ymgysylltu<br>**Ansoddol**<br>Dadansoddiad partneriaeth<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad o gyrhaeddiad ledled Cymru |
| **Hyrwyddo hawliau plant yn gadarn** | Datblygu Amcanion Tlodi Plant ar y cyd â fforymau ieuenctid, Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru a phartneriaid<br>Archwilio potensial cysoni amcanion gyda sefydliadau cenedlaethol eraill<br>Sefydlu arddangosfeydd sy'n cael eu harwain gan blant | Hawliau diwylliannol plant yn cael eu hwyluso | **Meintiol**<br>Nifer y plant sy'n cymryd rhan<br>**Ansoddol**<br>Adolygiad cymheiriaid a dadansoddiad partneriaeth o bolisïau<br>Arolygon mewnwelediadau i bennu effaith |

# Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes

<table>
<tr><th>Nod</th><th>Enghreifftiau o weithgarwch</th><th>Effaith</th><th>Dulliau mesur</th></tr>
<tr>
<td>Sefydlu safle Amgueddfa Cymru fel darparwr arweiniol rhaglenni diwylliannol yng Nghymru</td>
<td>Cyflwyno fflach arddangosfeydd ac arddangosiadau i ddathlu creadigrwydd Cymru ddoe a heddiw, a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol<br><br>Blas ar raglenni:<br>• Artes Mundi 10 (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd)<br>• Gwyliau (Sain Ffagan, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau)<br>• Cyrsiau Crefft (Sain Ffagan, Amgueddfa Wlân Cymru, Amgueddfa Lechi Cymru, Big Pit)</td>
<td rowspan="2">Hyrwyddo a dathlu creadigrwydd yng Nghymru<br><br>Plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael eu hysbrydoli a'u cymell i fod yn greadigol ac i ddatblygu'u doniau creadigol<br><br>Ysgolion yng Nghymru yn ymgysylltu ag Amgueddfa Cymru, gyda dros 200,000 o ddefnyddwyr bob blwyddyn<br><br>Plant, pobl ifanc ac oedolion yn dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg<br><br>Pobl ifanc ac oedolion yn magu sgiliau, hyder a phrofiad trwy lwybrau i gyflogaeth<br><br>Amgueddfa Cymru yn ennill enw da am ei gwaith gyda gwirfoddolwyr, plant a phobl ifanc, ac ymddiriedir ynddi fel darparwr addysg o safon<br><br>Rhwydweithiau da gan Amgueddfa Cymru o fewn y sectorau Addysg ac Ieuenctid ehangach<br><br>Cyfranogwyr, gwirfoddolwyr a lleoliadau yn cynrychioli'r boblogaeth</td>
<td>Meintiol<br>Nifer sy'n cymryd rhan<br>Cynyddu cyrhaeddiad cenedlaethol 20%, a rhyngwladol 50%<br><br>Ansoddol<br>Elw ar fuddsoddiad<br>Astudiaeth Achos<br>Gwerthuso</td>
</tr>
<tr>
<td>Cynnal safle Amgueddfa Cymru fel darparwr addysg tu allan i'r ystafell ddosbarth mwyaf Cymru</td>
<td>Rhoi Cwricwlwm Cymru ar waith trwy weithgareddau hybrid wedi'u hwyluso<br><br>Cyhoeddi adnoddau ar gyfer athrawon ac ysgolion gyda Cadw, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, y Comisiwn Brenhinol a'r Ffed<br><br>Parhau i gynnal mentrau partneriaeth ledled y DU gydag amgueddfeydd cenedlaethol eraill</td>
<td>Meintiol<br>Nifer sy'n cymryd rhan<br>Nifer yr ysgolion wedi'u mapio yn erbyn y cyfanswm ysgolion<br>Cynyddu cyrhaeddiad – 55% erbyn 2024 a 65% erbyn 2027<br><br>Ansoddol<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sefydlu darpariaeth addysg oedolion** | Sefydlu rhaglen bartneriaeth tair blynedd gyda'r Brifysgol Agored ac Addysg Oedolion Cymru<br><br>Datblygu cynnwys cwrs addysg oedolion, adnoddau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) ac adnoddau dysgu Cymraeg gyda phartneriaid | Hawliau diwylliannol plant yn cael eu hwyluso | **Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth |
| **Ehangu Ymgysylltiad â phobl ifanc a chefnogi'r Warant i Bobl Ifanc** | Rhoi Cynllun Gweithredu Dwylo ar Dreftadaeth ar waith, dan nawdd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol<br><br>Gwreiddio model Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru a cheisio cyllid ychwanegol pellach i gefnogi ehangu ymgysylltiad â phobl ifanc | | **Meintiol**<br>Nifer sy'n cymryd rhan<br><br>**Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth<br>Gwerthuso cyfranogol |
| **Cynnal statws Buddsoddwyr mewn Gwirfoddoli** | Ennill statws Buddsoddwyr mewn Gwirfoddoli am y pedwerydd tro<br><br>Cyflwyno cyfleoedd gwirfoddoli gyda phartneriaid ar gyfer pobl ifanc ac oedolion ym mhob amgueddfa ac ar blatfformau digidol | | **Meintiol**<br>Nifer sy'n cymryd rhan<br>Nifer yr oriau gwirfoddoli<br>Dadansoddiad demograffig<br><br>**Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth |

# Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd

| Nod | Enghreifftiau o weithgarwch | Effaith | Dulliau mesur |
|---|---|---|---|
| **Cynyddu ymwybyddiaeth o'r argyfwng amgylcheddol** | Ymgorffori themâu amgylcheddol yn ein harddangosfeydd a digwyddiadau, a chydweithio ag ymgyrchwyr amgylcheddol<br><br>Cynnal mentrau garddio gwyrdd:<br>• GRAFT, gardd gymunedol (Amgueddfa Genedlaethol y Glannau)<br>• Gerddi sy'n cael eu cynnal gan bartneriaid (Sain Ffagan), y ddôl wledig (Amgueddfa Wlân Cymru), y ddôl drefol (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd) | Unigolion a grwpiau yn fwy ymwybodol o'r argyfwng hinsawdd a chamau i leihau effeithiau ar yr amgylchedd<br><br>Meithrin camau gweithredu amgylcheddol cadarnhaol | **Meintiol**<br>Nifer sy'n cymryd rhan<br><br>**Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth<br>Gwerthuso (rhaglenni dethol) |

# Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy’n ysbrydoli

| Nod | Enghreifftiau o weithgarwch | Effaith | Dulliau mesur |
|---|---|---|---|
| **Bod yn amgylchedd cefnogol i bobl sy’n byw gyda dementia** | Lansio a chynnal blwyddyn gyntaf y project Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion mewn partneriaeth â Chymdeithas Alzheimer’s ac ar y cyd â phobl sy’n byw gyda dementia, eu partneriaid a’u gofalwyr (pob amgueddfa)<br><br>Blas ar raglenni:<br>• Cysur mewn Casglu | Rydym yn ymgysylltu â phobl sy’n byw gyda dementia, pobl y mae dementia yn effeithio arnynt a’u gofalwyr ac yn eu cefnogi<br><br>Pobl yn cael eu cefnogi i fyw bywydau iachach a hapusach<br><br>Lles corfforol, meddyliol ac emosiynol cyfranogwyr yn gwella trwy weithgarwch presgripsiynu cymdeithasol | **Meintiol**<br>Nifer sy’n cymryd rhan<br>Dadansoddiad demograffig<br><br>**Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth<br>Gwerthuso |
| **Cefnogi rhaglen les i Gymru yn unol â Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol Llywodraeth Cymru** | Datblygu a chynnal arlwy presgripsiynu cymdeithasol (yn amodol ar gyllid) | | **Meintiol**<br>Nifer sy’n cymryd rhan<br><br>**Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth |

## Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol*

| Nod | Enghreifftiau o weithgarwch | Effaith | Dulliau mesur |
|---|---|---|---|
| **Gwella platfformau digidol a phresenoldeb ar-lein ar gyfer rhaglenni cyhoeddus** | Darparu cyfleoedd strwythuredig i bobl ifanc greu cynnwys ar gyfer platfformau cyfryngau cymdeithasol gan adeiladu ar lwyddiant cyfrif Instagram Bloedd<br><br>Lansio Newid Amgueddfeydd er mwyn cyhoeddi dulliau gwaith a meddwl amgueddfaol | Cynyddu a gwella cyrhaeddiad digidol | **Meintiol**<br>Nifer sydd wedi edrych ac ymgysylltu<br><br>**Ansoddol**<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth |

## Creu cysylltiadau ar draws y byd**

| Nod | Enghreifftiau o weithgarwch | Effaith | Dulliau mesur |
|---|---|---|---|
| **Datblygu Arddangosfeydd Teithiol Rhyngwladol** | Cynnal arddangosfa Gwen John yn rhyngwladol yn 2026 (yn amodol ar gyllid)<br><br>Cydweithio â phartneriaid a lleoliadau rhyngwladol i gynllunio blaenraglen (yn amodol ar gyllid)<br><br>Cynllunio blaenraglen arddangosfeydd rhyngwladol ar gyfer 2026-30 (yn amodol ar gyllid) | Amgueddfa Cymru yn cael ei chydnabod fel amgueddfa o bwys byd-eang | **Meintiol**<br>Nifer sy'n cymryd rhan<br>Incwm a godwyd<br><br>**Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Dadansoddiad partneriaeth |

* Mae rhaglenni digidol yn hybrid ac wedi'u cynnwys yn Nod 2: Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes
** Mae ein digwyddiadau digidol a'n rhaglenni addysg hefyd yn creu cysylltiadau ar draws y byd. Mae data ac adrodd ar y rhaglenni hyn yn rhan o Nod 2: Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes

# 4. Dulliau Gweithio

**Wrth bennu a chytuno'r strategaeth hon a'r cynllun gweithredu, rydym wedi ystyried y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a amlinellwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gweler Atodiad 7.3 am fanylion. Mae rhwydwaith o dros 200 o bartneriaethau hyperleol, lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn gysylltiedig â datblygu a chyflawni rhaglenni Amgueddfa Cymru.**

Bydd y partneriaethau hyn yn cael eu hadolygu yn 2023 a bydd cytundebau partneriaeth diwygiedig yn cael eu sefydlu. Er bod partneriaethau cryf mewn meysydd fel addysg a digwyddiadau, datgelodd yr archwiliad diweddar gyfleoedd ar gyfer y dyfodol, er enghraifft teithiau rhyngwladol, mentrau iechyd a sefydliadau sy'n cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r argyfwng amgylcheddol. Mae mentrau diweddar ar y cyd â'r Ffed, fel Gaeaf Llawn Lles ac Ail-ddweud Stori'r Cymoedd, yn darparu modelau ar gyfer gweithio ar y cyd ag amgueddfeydd lleol ac annibynnol ledled Cymru.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu ffyrdd o weithio i'n helpu i weithredu cynllun rheoli carbon. I'r perwyl hwnnw, byddwn yn adolygu ein rhaglen arddangosfeydd yn sylweddol, gan gynnwys ein rhaglen deithiol yng Nghymru a chynlluniau ar gyfer teithio'n rhyngwladol. Bydd hefyd yn arwain at adolygiad o'r holl ddeunyddiau ac adnoddau a ddefnyddir ar draws ein rhaglenni.

Mae Strategaeth Pobl Amgueddfa Cymru yn cynnwys manylion ynglŷn â ffyrdd i ddatblygu a gwerthfawrogi ein staff hynod fedrus a thalentog. O fewn y Gyfadran, defnyddir mentora, hyfforddi a dysgu gweithredol fel cyfleoedd i staff fyfyrio ar eu gwaith a'i ddatblygu. Anogir staff i rannu'u gwaith mewn cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol. Byddwn yn adeiladu ar yr arfer hwn ac yn parhau i gofrestru ein rhaglenni ar gyfer gwobrau a'u rhannu â chymheiriaid.

# 5. Mesur ac Adrodd

Mae'r canlynol yn rhoi blas ar yr hyn y byddwn yn ei fesur a sut y byddwn yn mesur llwyddiant ein gwaith. Gan fod llawer o'n rhaglenni yn rhad ac am ddim, nid ydym yn cadw data manwl am y rheini sy'n cymryd rhan. Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn comisiynu cyfres o werthusiadau, gyda mewnbwn gan ein Tîm Craffu ar Gynulleidfaoedd, i ddeall cyrhaeddiad ac effeithiau'r rhaglenni hyn yn well. Byddwn hefyd yn datblygu ffyrdd gwell o fesur effaith rhaglenni, a byddwn yn archwilio cyfleoedd ar gyfer ymchwil cyfranogol sy'n canolbwyntio'n benodol ar fentrau iechyd a lles gyda'r Pennaeth Ymchwil.

| Mesurau Sylfaenol | Mesurau Eilaidd |
|---|---|
| **Meintiol**<br>Niferoedd sy'n cymryd rhan mewn Rhaglenni Cyhoeddus Hybrid gan gynnwys rhaglenni ysgolion, digwyddiadau cyhoeddus, arddangosfeydd a gwirfoddoli | **Meintiol**<br>Dadansoddiad demograffig o raglenni dethol – daearyddol, mynegai amddifadedd lluosog, amrywiaeth ethnig ac ati<br>Cydberthynas â chyfanswm nifer yr ymwelwyr â'n hamgueddfeydd ac ar-lein<br>Cyfraddau cadw ar gyfer rhaglenni amrywiol |
| **Ansoddol**<br>Adborth a gesglir trwy arolygon am y rhaglenni cyhoeddus | **Ansoddol**<br>Lefelau bodlonrwydd |
| **Ansoddol**<br>Gwerthuso a/neu ddadansoddi partneriaeth ar gyfer rhaglenni dethol | **Ansoddol a Meintiol**<br>Dadansoddiad elw ar fuddsoddiad ar raglenni dethol<br>Camau gweithredu'n seiliedig ar dystiolaeth New Economics Foundation (NEF) ar gyfer lles, dulliau mesur safonol y diwydiant amgueddfeydd a threftadaeth a fframweithiau ar gyfer asesu effaith lles |
| **Ansoddol**<br>Astudiaethau Achos wedi'u darparu gan arweinwyr/partneriaid rhaglenni | **Ansoddol**<br>Gwaith wedi'i adolygu gan gymheiriaid |

Byddwn yn adrodd ar gynnydd ac yn monitro'r Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus a'r Cynllun Gweithredu yn chwarterol yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Gweithredol, a bydd y Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus yn adrodd yn chwarterol i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau.

# 6. Rhagdybiaethau a Heriau

**Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar yr angen i wireddu Amgueddfa Cymru 2030 a'r cynllun busnes pum mlynedd sy'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. Cafodd ei datblygu ar sail y rhagdybiaeth y caiff lefel gyfredol yr adnoddau ei chynnal. Mae angen adnoddau ychwanegol er mwyn gwireddu'r Cynllun Gweithredu yn llawn. Lle mae angen canfod adnoddau allanol ychwanegol, nodwyd hynny yn y Cynllun Gweithredu. Ni fydd camau gweithredu nad ydynt wedi'u hariannu'n llawn yn cael eu dwyn ymlaen hyd nes bod yr adnoddau ychwanegol gofynnol wedi'u sicrhau.**

Mae seilwaith annigonol yn effeithio ar ein gallu i ddatblygu a thyfu agweddau penodol ar y rhaglen gyhoeddus, er enghraifft graddfa ac uchelgais ein digwyddiadau cyhoeddus, arddangosfeydd a gwaith digidol. Wrth i ni fynd i'r afael â'r materion hyn, byddwn yn diwygio ein cynlluniau.

Mae'r strategaeth hefyd yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd y trywydd adfer presennol yn parhau, gyda niferoedd sy'n cymryd rhan wyneb yn wyneb yn dychwelyd i lefelau cyn-Covid cyn pen tair blynedd.

# 7. Atodiad

## 7.1. Cynllun Gweithredu

Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd lefelau adnoddau presennol yn parhau. Mae meysydd sydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn i ni allu eu cyflawni wedi'u nodi mewn llwyd.

### Cynrychioli pawb

| Nodau | Gweithgareddau 2022/23 | Gweithgareddau 2023/24 | Gweithgareddau 2024-27 | Effeithiau | Arweinydd/ Arweinwyr | Mesur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dathlu amrywiaeth**<br><br>**Cefnogi'r gymdeithas yng Nghymru i goleddu a dathlu ei threftadaeth ddiwylliannol amrywiol wrth ddeall a chydnabod yr hawl i ryddid mynegiant diwylliannol** | Cyd-ddylunio a chyflwyno digwyddiadau ac arddangosfeydd gyda sefydliadau cymunedol llawr gwlad i ymgysylltu ag unigolion amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd i fynegi'u creadigrwydd, treftadaeth, iaith a'u hunaniaeth a'u gwreiddiau diwylliannol yn eu termau eu hunain ac mewn cydweithrediad ag Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru ac orielau lleol (yn amodol ar gyllid) | Cyd-ddylunio a chyflwyno digwyddiadau ac arddangosfeydd gyda sefydliadau cymunedol llawr gwlad i ymgysylltu ag unigolion amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd i fynegi'u creadigrwydd, treftadaeth, iaith a'u hunaniaeth a'u gwreiddiau diwylliannol yn eu termau eu hunain ac mewn cydweithrediad ag Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru ac orielau lleol (yn amodol ar gyllid) | Cyd-ddylunio a chyflwyno digwyddiadau ac arddangosfeydd gyda sefydliadau cymunedol llawr gwlad i ymgysylltu ag unigolion amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd i fynegi'u creadigrwydd, treftadaeth, iaith a'u hunaniaeth a'u gwreiddiau diwylliannol yn eu termau eu hunain ac mewn cydweithrediad ag Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru ac orielau lleol (yn amodol ar gyllid) | Pobl greadigol yn cael eu cefnogi ar lefel llawr gwlad yn unigol ac yn gyfunol i gyfranogi mewn cyfleoedd a chynnig cyfleoedd i fynegi'u hunaniaeth eu hunain ar eu telerau eu hunain | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus<br><br>Pennaeth Digwyddiadau<br><br>Pennaeth Arddangosfeydd | **Meintiol**<br>Cynnydd mesuradwy mewn partneriaethau/ ymgysylltiad â sefydliadau cymunedol llai<br><br>**Ansoddol**<br>Lefelau bodlonrwydd Astudiaethau Achos |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyd-gyflwyno digwyddiadau ac arddangosfeydd gyda phobl sy'n nodi eu bod yn LHDTC+, a/neu bobl sy'n byw mewn ardaloedd dan anfantais economaidd<br><br>Sefydlu adnoddau wedi'u clustnodi a darparu lleoliadau i gefnogi cymunedau llawr gwlad amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd i gyd-ddylunio a chyflwyno rhaglenni fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad<br><br>Blas ar raglenni:<br>• Digwyddiadau Hanes Pobl Ddu 365<br>• Mis Hanes Glitter a Pride | Cyd-gyflwyno digwyddiadau ac arddangosfeydd gyda phobl sy'n nodi eu bod yn LHDTC+, a/neu bobl sy'n byw mewn ardaloedd dan anfantais economaidd<br><br>Darparu adnoddau a lleoliadau i gefnogi cymunedau llawr gwlad amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd | Cyd-gyflwyno digwyddiadau ac arddangosfeydd gyda phobl sy'n nodi eu bod yn LHDTC+, pobl F/fyddar ac anabl, a/neu bobl sy'n byw mewn ardaloedd dan anfantais economaidd<br><br>Darparu adnoddau wedi'u clustnodi i gefnogi cymunedau llawr gwlad amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd | Rhaglenni'n naturiol ddwyieithog, cynhwysol, gwrth-hiliol a gwrth-ablaidd<br><br>Cymunedau yn ffurfio a llywio eu profiadau diwylliannol eu hunain ac yn cynnig cyfleoedd i gydweithio gydag Amgueddfa Cymru<br><br>Pobl a digwyddiadau sydd â chyswllt hanesyddol hysbys â chaethwasiaeth a gwladychiaeth yn cael eu portreadu mewn ffordd wrth-hiliol – un sy'n cydnabod anghyfiawnderau hanesyddol | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus<br><br>Pennaeth Digwyddiadau<br><br>Pennaeth Casgliadau | **Meintiol**<br>Cynnydd mesuradwy mewn partneriaethau/ ymgysylltiad â sefydliadau cymunedol llai<br><br>**Ansoddol**<br>Lefelau bodlonrwydd Astudiaethau Achos |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arddangos naratifau hanesyddol sy'n hyrwyddo a chyflawni hanes cytbwys, dilys a dad-drefedigaethol o'r gorffennol** | Gweithio gyda chymunedau, pobl ifanc ac ymarferwyr creadigol sydd â phrofiad bywyd i ddatblygu Cynllun Gweithredu tair blynedd sy'n canolbwyntio ar ddad-drefedigaethu ac ailffurfio arddangosiadau ac arddangosfeydd cyhoeddus i adrodd straeon trwy lygaid cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd, mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru (yn amodol ar gyllid) | Gweithio gyda chymunedau, pobl ifanc ac ymarferwyr creadigol sydd â phrofiad bywyd i gyflawni ail flwyddyn y Cynllun Gweithredu i ddad-drefedigaethu arddangosiadau cyhoeddus a datblygu arddangosfeydd newydd i adrodd straeon trwy lygaid cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd, mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru (yn amodol ar gyllid) | Rhoi trydedd flwyddyn y Cynllun Gweithredu ar waith a lansio arddangosiadau ac arddangosfeydd sy'n adrodd straeon trwy lygaid cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd (yn amodol ar gyllid)<br><br>Sefydlu cynllun gyda phartneriaid i ymgorffori arddangosfeydd cymunedol mewn blaenraglenni ar gyfer pob amgueddfa | Naratifau hanesyddol mewn arddangosiadau ac arddangosfeydd yn wirioneddol gynrychioli natur gyfoethog ac amrywiol ein treftadaeth gyffredin<br><br>Cymunedau'n adrodd bod lleisiau'r rheiny a esgeuluswyd yn naratifau hanesyddol yn cael eu hybu a'u dathlu | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus<br><br>Pennaeth Arddangosfeydd<br><br>Penaethiaid Casgliadau | **Meintiol**<br>Cynnydd mesuradwy mewn partneriaethau/ ymgysylltiad â sefydliadau cymunedol llai<br>Nifer sy'n ymweld ag arddangosfeydd<br><br>**Ansoddol**<br>Gwerthuso Astudiaethau Achos |
| | Blas ar arddangosfeydd a gynhyrchwyd ar y cyd:<br><br>• *Ail-fframio Picton* gyda'r Panel Cynghori Is-Sahara (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd) | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu am amrywiaeth ddiwylliannol ac adnabod a dathlu cymysgedd diwylliannol cyfoethog ac amrywiol ein cymdeithas** | Gweithio gyda grwpiau ac unigolion amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd i adolygu adnoddau addysg ar-lein a gweithdai yn y cnawd i gefnogi'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru<br><br>Creu adnoddau ar-lein newydd a pheilota rhaglenni gydag ysgolion ar Hwb<br><br>Adeiladu ar straeon a'u cysylltu ymhellach, trwy lygaid cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd, o fewn rhaglenni diwylliannol presennol fel Cyfuno ac adnoddau diwylliannol ar Hwb | Cyflwyno rhaglenni mewn ysgolion ac adnoddau ar-lein i ddathlu cyfraniad cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd yn y gorffennol a'r presennol<br><br>Hyrwyddo cydraddoldeb trwy ddarparu rhaglenni diwylliannol fel Cyfuno ac adnoddau diwylliannol ar Hwb | Cyflwyno rhaglenni ac adnoddau mewn ysgolion i ddathlu cyfraniad cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd yn y gorffennol a'r presennol<br><br>Hyrwyddo cydraddoldeb trwy ddarparu rhaglenni diwylliannol fel Cyfuno ac adnoddau diwylliannol ar Hwb | Gwell mynediad i brofiadau Amgueddfa Cymru ar gyfer pobl ym mhob rhan o Gymru<br><br>Pobl yn adrodd bod cynnwys rhaglenni cyhoeddus yn fwy sensitif, hygyrch, teg a gwrth-hiliol<br><br>Cyfranogwyr/ defnyddwyr/ cynulleidfaoedd yn cynrychioli poblogaeth Cymru | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus<br><br>Pennaeth Addysg | **Meintiol**<br>Nifer sydd wedi edrych a lawrlwytho adnoddau<br><br>**Ansoddol**<br>Lefelau bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos |
| | Archwilio, gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, cyfleoedd i ehangu cyflwyno Cynefin i leoliadau amgueddfa (yn amodol ar gyllid) | Peilota, gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, cyfleoedd i ehangu cyflwyno Cynefin i leoliadau amgueddfa (yn amodol ar gyllid) | Cyflwyno Cynefin gyda Chyngor Celfyddydau Cymru mewn lleoliadau amgueddfa (yn amodol ar gyllid) | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cydweithio â sefydliadau llawr gwlad, lleol a chenedlaethol, gan gynnwys y Ffed i gyflawni rhaglenni partneriaeth** | Datblygu a chyflwyno arddangosfeydd cymunedol | Sefydlu cynllun partneriaeth ar gyfer gweithio mewn awdurdodau lleol lle nad oes amgueddfa genedlaethol yn bodoli, i gynnwys:<br>• Cynllun a sail resymegol ar gyfer arddangosfeydd teithiol ledled Cymru<br>• Cynllun a sail resymegol ar gyfer presenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol<br>• Cynllun busnes i ehangu presenoldeb mewn digwyddiadau cenedlaethol 2024-27 | Datblygu a chyflwyno arddangosfeydd teithiol a gynhyrchwyd ar y cyd â chymunedau<br><br>Bod yn bresennol mewn digwyddiadau cenedlaethol gan gynnwys Eisteddfodau, Pride a'r Sioe Frenhinol<br><br>Archwilio defnydd o'r pecyn teithio gwib mewn lleoliadau cymunedol eraill, gan gynnwys ysgolion | | Pennaeth Arddangos-feydd<br><br>Pennaeth Digwyddiadau<br><br>Pennaeth Addysg | **Meintiol**<br>Nifer sydd wedi ymgysylltu<br><br>**Ansoddol**<br>Dadansoddiad partneriaeth Astudiaethau Achos Dadansoddiad o gyrhaeddiad ledled Cymru |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni projectau gyda lleoliadau ac amgueddfeydd lleol:<br>• Ail-ddweud Stori'r Cymoedd gydag Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa ac Ymddiriedolaeth Amgueddfa ac Oriel Cwm Cynon<br><br>Bod yn bresennol yn y digwyddiadau cenedlaethol:<br>• Eisteddfod yr Urdd<br>• Yr Eisteddfod Genedlaethol<br>• Pride<br><br>Datblygu a pheilota pecyn teithio gwib i gyflwyno cynnwys arddangosfeydd, a chasglu naratifau mewn lleoliadau cymunedol a digwyddiadau cenedlaethol | Cyflawni trydedd flwyddyn y fenter Ail-ddweud Stori'r Cymoedd mewn partneriaeth ag Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa ac Ymddiriedolaeth Amgueddfa ac Oriel Cwm Cynon<br><br>Cyflwyno digwyddiadau cymunedol a chenedlaethol gan ddefnyddio'r pecyn teithio gwib cymunedol:<br>• Eisteddfod yr Urdd<br>• Eisteddfod Genedlaethol<br>• Pride<br>• Y Sioe Frenhinol | | | Pennaeth Arddangosfeydd<br><br>Pennaeth Digwyddiadau<br><br>Pennaeth Addysg | **Meintiol**<br>Nifer sydd wedi ymgysylltu<br><br>**Ansoddol**<br>Dadansoddiad partneriaeth<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad o gyrhaeddiad ledled Cymru |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cefnogi menter Cyfuno gyda sefydliadau llawr gwlad i ddarparu sgiliau a phrofiadau mewn ardaloedd sy'n wynebu anfantais economaidd** | *Yn amodol ar adolygiad Llywodraeth Cymru o fenter Cyfuno a chyllid yn y dyfodol*<br><br>Parhau i gefnogi rhwydwaith Cyfuno a sefydlwyd trwy fenter Cyfuno Llywodraeth Cymru (rhaglen ddiwylliannol gymunedol) gydag awdurdodau lleol ledled Cymru<br><br>Cyflawni rhaglenni i gefnogi Cyfuno e.e. y rhaglen leoliadau Uchelgais Ddiwylliannol gyda Sgiliau Creadigol a Diwylliannol | Diwygio'r cynllun yn unol ag argymhellion a wnaed yn dilyn gwerthusiad Llywodraeth Cymru o raglen Cyfuno<br><br>Parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru fel bo'r gofyn ar gynlluniau a strategaeth ar gyfer 2023+ | | | Pennaeth Ymgysylltu a Gwirfoddoli | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Galluogi gwaith cymunedol a chyd-gynhyrchu** | Sefydlu Tasglu Cydraddoldeb Hiliol a grwpiau Gorchwyl a Gorffen pobl F/fyddar ac anabl gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i fonitro cyflawni'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad<br><br>Cydlynu Bwrdd Partneriaeth Dwylo ar Dreftadaeth gyda phobl ifanc, partneriaid, staff ac ymddiriedolwyr i gynyddu cynrychiolaeth pobl ifanc mewn datblygu polisi a gwneud penderfyniadau<br><br>Adolygu a diwygio'r strwythur contractau a thaliadau ar gyfer Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru a sefydlu model ar gyfer cyd-gynhyrchu dan arweiniad pobl ifanc<br><br>Adolygu a diwygio'r Polisi Tâl Cymunedol, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a fframweithiau i roi contractau i sefydliadau cymunedol i arwain a chyd-gynhyrchu rhaglenni | Archwilio fframweithiau ar gyfer datblygu byrddau cynghori a phaneli ieuenctid a arweinir gan gymunedau ar gyfer mentrau ar lefel leol<br><br>Fframweithiau ar gyfer gweithio cydsyniol ar waith, dwyochredd ac anghydraddoldeb pŵer wedi'u cyfleu<br><br>Adolygu'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol a grwpiau Gorchwyl a Gorffen pobl F/fyddar ac anabl gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a phartneriaid ac addasu yn ôl yr angen<br><br>Diwygio Bwrdd Partneriaeth Dwylo ar Dreftadaeth ar ôl cyllid y loteri | Dwyn fframweithiau yn eu blaen ar gyfer cyflawni byrddau cynghori a arweinir gan gymunedau, rhwydwaith Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru a phaneli ieuenctid | | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus<br><br>Pennaeth Ymgysylltu a Gwirfoddoli | **Meintiol**<br>Cyfradd gadw<br><br>**Ansoddol**<br>Dadansoddiad partneriaeth |
| **Hyrwyddo hawliau plant** | Datblygu Amcanion Tlodi Plant gyda mewnbwn gan fforymau ieuenctid, Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru a phartneriaid<br><br>Trafod ac archwilio potensial cysoni amcanion gyda chyrff eraill a noddir yn genedlaethol | Ymgorffori Amcanion Tlodi Plant yn y cynllun corfforaethol sefydliadol<br><br>Sefydlu cynllun ar gyfer arddangosfeydd a arweinir gan blant | Adolygu Amcanion Tlodi Plant ar gyfer 2025+<br><br>Sefydlu arddangosfeydd a arweinir gan blant | Hawliau diwylliannol plant yn cael eu hwyluso | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus | **Meintiol**<br>Nifer y plant yn cyfranogi<br><br>**Ansoddol**<br>Arolygon mewnwelediad Adolygiad cymheiriaid a dadansoddiad partneriaeth |

# Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes

| Nodau | Gweithgareddau 2022/23 | Gweithgareddau 2023/24 | Gweithgareddau 2024-27 | Effeithiau | Arweinydd/ Arweinwyr | Mesur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sefydlu safle Amgueddfa Cymru fel darparwr arweiniol rhaglenni diwylliannol yng Nghymru** | Cyflwyno arddangosfeydd, digwyddiadau a chyhoeddiadau i ddathlu creadigrwydd Cymru yn y gorffennol a'r presennol<br><br>Arddangosfeydd:<br>• Arddangosfeydd teithiol: *100 Celf* (Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth ac Y Gaer Aberhonddu)<br>• Arddangosfeydd mawr: *BBC 100 yng Nghymru* (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd)<br><br>Digwyddiadau:<br>• Cyrsiau gyda chrefftwyr a sefydliadau crefft (Amgueddfa Lechi Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Sain Ffagan)<br>• Gwyliau e.e. Gŵyl Fwyd (Sain Ffagan) a Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe (Amgueddfa Genedlaethol y Glannau)<br>• Amgueddfa Dros Nos: Gartref (digidol)<br>• Sgyrsiau Amgueddfa (digidol)<br>• Rhaglen 'Sgwrs Gyda' (hybrid)<br>• Llwybrau Tymhorol (pob amgueddfa) | Cyflwyno arddangosfeydd, digwyddiadau a chyhoeddiadau i ddathlu creadigrwydd Cymru yn y gorffennol a'r presennol<br><br>Arddangosfeydd:<br>• Arddangosfeydd teithiol: *100 Celf* (Oriel Ynys Môn); *Geiriau Diflanedig* (parciau cenedlaethol)<br>• Arddangosfeydd mawr: *Artes Mundi 10* (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd)<br><br>Digwyddiadau:<br>• Cyrsiau (Amgueddfa Lechi Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Sain Ffagan, Big Pit)<br>• Gwyliau (Sain Ffagan, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd) | Cyflwyno arddangosfeydd, digwyddiadau a chyhoeddiadau i ddathlu creadigrwydd Cymru yn y gorffennol a'r presennol<br><br>Arddangosfeydd:<br>• Datblygu rhaglen arddangosfeydd i deithio dros Gymru (yn amodol ar gyllid)<br>• Creadigrwydd, streiciau a phrotestiadau yng Nghymru i nodi Streic y Glowyr yn 2024 (pob amgueddfa)<br><br>Digwyddiadau:<br>• Cyrsiau, Gwyliau, Amgueddfa Dros Nos, Sgyrsiau, digwyddiadau Hwyrnos a Llwybrau<br>• Lansio pecynnau Teithiau (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Sain Ffagan)<br><br>Cyhoeddiadau:<br>• Lansio cyd-gyhoeddiad mawr Gwen John | Creadigrwydd yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo a'i ddathlu<br><br>Plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael eu hysbrydoli a'u cymell i fod yn greadigol ac i ddatblygu'u doniau creadigol<br><br>Doniau creadigol Cymru, yn y gorffennol a'r presennol, yn cael eu harddangos, gan gyfrannu at dwristiaeth ddiwylliannol yng Nghymru | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus<br><br>Pennaeth Arddangos-feydd<br><br>Pennaeth Digwyddiadau<br><br>Pennaeth Cyhoeddi | **Meintiol**<br>Nifer yn cyfranogi Cynyddu cyrhaeddiad yn genedlaethol 20%, ac yn rhyngwladol 50%<br><br>**Ansoddol**<br>Elw ar fuddsoddiad Astudiaeth Achos Gwerthuso |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyhoeddiadau:<br>• Lansio *Llewyrch: Oes Aur Cerameg yng Nghymru*<br>• Datblygu Rhaglen Gyhoeddi ar gyfer 2023-25 | • Amgueddfa Dros Nos: Gartref (digidol), archwilio opsiynau ar gyfer Amgueddfa Dros Nos i Oedolion<br>• Sgyrsiau Amgueddfa (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd/ digidol)<br>• Rhaglen 'Sgwrs Gyda' (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd/ digidol)<br>• Llwybrau Tymhorol (pob amgueddfa)<br>• Teithiau Peilot (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd)<br><br>Cyhoeddiadau:<br>• Datblygu cynllun busnes a chynnwys ar gyfer cyd-gyhoeddiad mawr Gwen John | Datblygu achos busnes dros sefydlu rhaglen Crefftau i Gymru dros Amgueddfa Cymru gyda thimau Profiad Ymwelwyr a Mentrau | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynnal safle Amgueddfa Cymru fel y darparwr addysg tu allan i'r ystafell ddosbarth mwyaf Cymru** | Cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru gan hwyluso gweithgareddau hybrid yn rhithwir ac mewn amgueddfeydd<br><br>Mireinio rhaglenni presennol i adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru (gan ymgorffori Cynefin, dysgu Cymraeg, amrywiaeth fel thema croestoriadol a dysgu hanes Cymru)<br><br>Datblygu gwaith ar y cyd â'r Ffed i ddarparu adnoddau ar gyfer ysgolion<br><br>Adeiladu ar gydweithrediadau cenedlaethol yng Nghymru, gan gynnwys: Cadw, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru i gyhoeddi adnoddau ar gyfer ysgolion<br><br>Parhau i gydweithio ag amgueddfeydd cenedlaethol eraill i gyflwyno rhaglenni ar gyfer ysgolion e.e. y bartneriaeth Archwilio: Natur Drefol gyda'r Amgueddfa Hanes Natur<br><br>Datblygu rhaglen hybrid ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon cymwys<br><br>Peilota brand newydd ac ailystyried marchnata a'r wefan i'w gwneud hi'n haws ei llywio | Cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru gan hwyluso gweithgareddau hybrid yn rhithwir ac mewn amgueddfeydd<br><br>Datblygu a chyhoeddi adnoddau i athrawon ac ysgolion i gefnogi'r cwricwlwm newydd a hyrwyddo dysgu Cymraeg, cynhwysiant ac arfer gwrth-hiliol<br><br>Datblygu'r rhaglen ysgolion uwchradd<br><br>Cyhoeddi adnoddau ar gyfer ysgolion gyda Cadw, y Llyfrgell Genedlaethol, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r Ffed<br><br>Recriwtio a hyfforddi actorion ac artistiaid llawrydd allanol i hwyluso elfennau o'r rhaglen ysgolion | Cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru gan hwyluso gweithgareddau hybrid yn rhithwir ac mewn amgueddfeydd<br><br>Gwerthuso diwygiadau a wnaed i'r rhaglen ac ymateb i'r canfyddiadau<br><br>Cyhoeddi adnoddau ar gyfer athrawon ac ysgolion gyda Cadw, y Llyfrgell Genedlaethol, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r Ffed<br><br>Parhau i adeiladu'r rhaglen ysgolion uwchradd yn unol ag ehangu'r Cwricwlwm i Gymru | Ysgolion yng Nghymru yn ymgysylltu ag Amgueddfa Cymru, gyda dros 200,000 o ddefnyddwyr bob blwyddyn i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru<br><br>Plant, pobl ifanc, oedolion a phartneriaid wedi'u grymuso i gyd-gynhyrchu eu profiadau dysgu diwylliannol eu hunain<br><br>Plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael eu hysbrydoli a'u cymell i ddysgu ac i rannu'u dysgu<br><br>Plant, pobl ifanc ac oedolion yn dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg | Pennaeth Addysg<br><br>Arweinydd Strategol ar gyfer Addysg Ffurfiol | **Meintiol**<br>Nifer yn cyfranogi<br><br>Nifer yr ysgolion wedi'u mapio yn erbyn y cyfanswm ysgolion<br><br>Cynyddu cyrhaeddiad erbyn 2024<br><br>**Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygu modelau newydd i gyflawni ymgysylltiad cyn-ysgol** | Gweithio gyda darparwyr addysg y blynyddoedd cynnar i ddatblygu gweithgaredd ar gyfer partneriaid i gyflwyno darpariaeth ar gyfer plant cyn-ysgol a'u gofalwyr/teuluoedd mewn amgueddfeydd, a nodi anghenion hyfforddi | Peilota ffyrdd newydd o letya darparwyr addysg allanol (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Sain Ffagan, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Big Pit) | Adolygu ffyrdd newydd o weithio a rhoi newidiadau ar waith | Pobl ifanc ac oedolion yn ennill sgiliau, hyder a phrofiad gyda llwybrau dilyniant at gyflogaeth<br><br>Amgueddfa Cymru yn ennill enw da am ei gwaith gyda gwirfoddolwyr, plant a phobl ifanc, ac ymddiriedir ynddi fel darparwr addysg o safon<br><br>Rhwydweithiau da gan Amgueddfa Cymru o fewn y sectorau Addysg ac Ieuenctid ehangach<br><br>Cyfranogwyr, gwirfoddolwyr a lleoliadau yn cynrychioli'r boblogaeth | Pennaeth Addysg<br><br>Arweinydd Strategol ar gyfer Addysg i Deuluoedd a'r Blynyddoedd Cynnar | **Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Dadansoddiad partneriaeth |
| **Hwyluso Rhaglen Addysg i Deuluoedd i gynnwys plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n wynebu'r anfantais fwyaf** | Gweithio gyda theuluoedd a phartneriaid i ddatblygu a chyflwyno:<br>• Adnoddau a gweithgareddau hybrid sy'n hyrwyddo cynhwysiant a gwrth-hiliaeth<br>• Dysgu Cymraeg a dysgu Saesneg fel ail iaith (SSIE)<br>• Cynllun i gefnogi plant sy'n derbyn gofal | Cynnal a chyflwyno cynnig teuluol sy'n pontio'r cenedlaethau a rhaglenni ar gyfer plant sy'n derbyn gofal<br><br>Darparu mewnbwn i dimau Profiad Ymwelwyr ar archwilio profiadau teulu ym mhob amgueddfa a chynllunio ar gyfer profiadau addysg hunan-dywys | Cynnal a chyflwyno cynnig teuluol sy'n pontio'r cenedlaethau a rhaglenni ar gyfer plant sy'n derbyn gofal<br><br>Adolygu profiadau addysg hunan-dywys gyda thimau Profiad Ymwelwyr | | Pennaeth Addysg<br><br>Arweinydd Strategol ar gyfer Addysg i Deuluoedd a'r Blynyddoedd Cynnar | **Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth |
| **Sefydlu darpariaeth addysg oedolion** | Cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Addysg Oedolion Cymru a lansio partneriaeth<br><br>Sefydlu rhaglen bartneriaeth tair blynedd gyda'r Brifysgol Agored ac Addysg Oedolion Cymru<br><br>Datblygu a chyflwyno rhaglenni peilot newydd gyda phartneriaid (Sain Ffagan)<br><br>Datblygu adnoddau SSIE a rhaglenni cysylltiedig gyda phartneriaid | Datblygu cwrs addysg oedolion gyda phartneriaid o'r Brifysgol Agored ac Addysg Oedolion Cymru (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Sain Ffagan, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau), ac adnoddau Cymraeg diwygiedig gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (pob amgueddfa)<br><br>Adolygu'r berthynas bresennol gydag Addysg Bellach ac Addysg Uwch gydag adrannau curadurol | Cydweithio â'r Brifysgol Agored i ddatblygu ac ehangu adnoddau addysg ymhellach gan ddefnyddio llwyfannau fel OpenLearn (yn amodol ar gyllid)<br><br>Ymgorffori'r bartneriaeth addysg oedolion gan weithio ar draws pob amgueddfa (yn amodol ar gyllid) | | Pennaeth Addysg<br><br>Arweinydd Strategol ar gyfer Addysg Oedolion | **Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ehangu ymgysylltiad â phobl ifanc (14-16, 17-18, 18-24) a chefnogi'r Warant i Bobl Ifanc** | Cyflawni Cynllun Gweithredu Dwylo ar Dreftadaeth, a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, i gynnwys:<br>• Adolygu model Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru<br>• Modelau sgiliau gyda phartneriaid, i gefnogi creadigrwydd a dysgu Cymraeg<br><br>Cwblhau gwerthusiad, a chynllunio ar gyfer model cyflawni ar ôl i nawdd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ddod i ben<br><br>Cynnal menter Haf o Hwyl ar y cyd â'r Ffed ac archwilio cydweithio yn y dyfodol | Sefydlu mentrau ieuenctid craidd, modelau achredu a sgiliau, ac ymgorffori Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru fel rhan o waith craidd<br><br>Datblygu Cynllun Busnes ar gyfer ehangu ymgysylltiad â phobl ifanc ar ôl menter Dwylo ar Dreftadaeth (yn amodol ar gyllid)<br><br>Ceisio cyllid ychwanegol pellach i gefnogi ehangu ymgysylltiad gyda phobl ifanc | Rhoi Cynllun Busnes ar waith ar gyfer ehangu ymgysylltiad â phobl ifanc ar ôl menter Dwylo ar Dreftadaeth (yn amodol ar gyllid) | | Pennaeth Ymgysylltu a Gwirfoddoli | **Meintiol**<br>Nifer yn cyfranogi<br><br>**Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth<br>Gwerthuso cyfranogol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynnal Safon Buddsoddwyr mewn Gwirfoddoli** | Adolygu polisïau a chynllunio ar gyfer gwirfoddolwyr a lleoliadau gyda phartneriaid a gwirfoddolwyr yn unol â Buddsoddwyr mewn Gwirfoddoli, ar gyfer 2023-25<br><br>Gwirfoddoli:<br>• Cynnal a hwyluso cyfleoedd presennol (Sain Ffagan, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Amgueddfa Wlân Cymru)<br>• Cynnig cyfleoedd newydd (Amgueddfa Lechi Cymru, Big Pit, Y Ganolfan Gasgliadau)<br>• Datblygu cyfleoedd gydag unigolion a grwpiau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd<br>• Datblygu cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Treialu cynllun cyfeillio<br>• Datblygu seilwaith ar gyfer gwirfoddoli digidol ac e-wirfoddoli<br><br>Lleoliadau:<br>• Safoni fframweithiau ar gyfer myfyrwyr a lleoliadau a ariennir<br>• Ehangu Lleoliadau Datblygu Sgiliau Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Sain Ffagan)<br>• Datblygu cyfleoedd drwy'r Gymraeg | Adolygu a diwygio'r Cynllun Gweithredu a gofynion ariannu ar gyfer 2025+ gyda phartneriaid a gwirfoddolwyr<br><br>Cyflawni Cynllun Gweithredu manwl ar gyfer 2023-25 i gynnwys:<br>• E-wirfoddoli<br>• Cyfleoedd gwirfoddoli newydd yn y cnawd gyda phartneriaid<br><br>Adolygu amrywiaeth deiliaid lleoliadau a gwneud newid effeithiol er mwyn cynyddu amrywiaeth<br><br>Diwygio lleoliadau a ariennir ac awgrymu model arfer gorau | Cyflawni Safon Buddsoddwyr mewn Gwirfoddoli am y pedwerydd tro<br><br>Adolygu a diwygio cyfleoedd e-wirfoddoli a chyfleoedd gwirfoddoli yn y cnawd<br><br>Adolygu a diwygio cyfleoedd am leoliadau | | Pennaeth Ymgysylltu a Gwirfoddoli<br><br>Rheolwr Gwirfoddoli a Lleoliadau | **Meintiol**<br>Nifer yn cyfranogi<br>Nifer yr oriau a wirfoddolwyd<br>Dadansoddiad demograffig o amrywiaeth ethnig, ddaearyddol ac ati<br><br>**Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mabwysiadu Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a dull lluosieithog o ran y Gymraeg** | Sefydlu cynnig BSL ar gyfer y rhaglen digwyddiadau ar-lein<br><br>Sefydlu dull lluosieithog o ran y Gymraeg yn y rhaglen ar gyfer ysgolion<br><br>Gweithio gyda phobl F/fyddar ac anabl mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu safonau mynediad a chanllawiau ar gyfer rhaglenni yn unol â'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad | Ymgorffori BSL ar draws y rhaglen digwyddiadau<br><br>Sefydlu dull lluosieithog o ran y Gymraeg yn y rhaglen addysg a'i beilota mewn arddangosfeydd<br><br>Gweithio gyda phobl F/fyddar ac anabl a phartneriaethau i gyflawni cynlluniau ar gyfer ymgorffori argymhellion a wnaed gan gymunedau sy'n gweithio gyda Richie Turner Associates ac o Archwiliadau a gynhaliwyd gan Direct Access | Prif-ffrydio'r cynnig BSL ar draws y rhaglen digwyddiadau.<br><br>Cynllunio i ymgorffori BSL mewn arddangosfeydd a'i pheilota yn y rhaglen addysg (yn amodol ar gyllid)<br><br>Sefydlu dull lluosieithog o ran y Gymraeg wrth ddehongli arddangosfeydd | Rhaglenni'n naturiol ddwyieithog a chynhwysol | Pennaeth Addysg<br><br>Pennaeth Digwyddiadau<br><br>Pennaeth Arddangos-feydd<br><br>Cydlynydd y Gymraeg | **Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth |
| **Bodloni'r targed incwm a chodi arian fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth Cynhyrchu Incwm** | Cyflawni yn erbyn targedau fel y nodwyd yn y cynllun<br><br>Darparu adroddiad i'r Adran Datblygu ar gyfer cyllidwyr, gan gynnwys Sefydliad Paul Hamlyn, People's Postcode Lottery, Sefydliad Clore Duffield, y Loteri Genedlaethol ac ati<br><br>Datblygu ceisiadau am gyllid ar gyfer ehangu ymgysylltiad â phobl ifanc a rhaglenni cyhoeddus eraill | Cyflawni yn erbyn targedau a chyflwyno ceisiadau am gyllid fel y nodwyd yn y cynllun<br><br>Datblygu cynllun cynhyrchu incwm ar gyfer 2025+<br><br>Darparu adroddiad i'r Adran Datblygu ar gyfer cyllidwyr | Cyflawni yn erbyn targedau a chyflwyno ceisiadau am gyllid fel y nodwyd yn y cynllun<br><br>Darparu adroddiad i'r Adran Datblygu ar gyfer cyllidwyr | Cefnogi Strategaeth Cynhyrchu Incwm Amgueddfa Cymru | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus<br><br>Pennaeth Addysg<br><br>Pennaeth Arddangos-feydd<br><br>Pennaeth Digwyddiadau<br><br>Pennaeth Cyhoeddiadau | **Meintiol**<br>Targed incwm wedi'i fodloni<br><br>**Ansoddol**<br>Adborth gan gyllidwyr |

# Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd

| Nodau | Gweithgareddau 2022/23 | Gweithgareddau 2023/24 | Gweithgareddau 2024-27 | Effeithiau | Arweinydd/ Arweinwyr | Mesur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynyddu ymwybyddiaeth o'r argyfwng hinsawdd** | Cynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd:<br>• Arddangosfa *Ffotograffydd Bywyd Gwyllt y Flwyddyn* a rhaglen o ddigwyddiadau yn cynnwys digwyddiadau Hwyrnos ac Amgueddfa dros Nos: Byd Natur GARTREF<br>• Digwyddiadau Awr Ddaear i gefnogi ymgyrch fyd-eang yn ystod COP27<br><br>Mentrau gwirfoddoli a garddio gwyrdd:<br>• GRAFT fel gardd gymunedol (Amgueddfa Genedlaethol y Glannau)<br>• Gerddi'n cael eu harwain gan bartneriaid (Sain Ffagan)<br>• Dôl wledig (Amgueddfa Wlân Cymru)<br>• Dôl drefol (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd) | Cynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd:<br>• Arddangosfa *Galw am Gerrig* (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd)<br>• Arddangosfa *Geiriau Diflanedig* gydag Oriel y Parc (Parciau Cenedlaethol)<br>• Digwyddiadau 'Sgwrs Gyda'<br><br>Mentrau gwirfoddoli a garddio gwyrdd:<br>• GRAFT fel gardd gymunedol (Amgueddfa Genedlaethol y Glannau)<br>• Gerddi'n cael eu cynnal gan bartneriaid (Sain Ffagan)<br>• Dôl wledig (Amgueddfa Wlân Cymru)<br>• Dôl drefol (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd) | Ymgorffori themâu amgylcheddol wrth gyflwyno arddangosfeydd a digwyddiadau<br><br>Parhau i gynllunio a chyflwyno arddangosfeydd gan ddarparu ffocws argyfwng amgylcheddol<br><br>Parhau i gynllunio a chyflawni mentrau gwirfoddoli a garddio gwyrdd (Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Sain Ffagan, Amgueddfa Wlân Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd), adolygu cyfleoedd mewn amgueddfeydd eraill (Big Pit, Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru) | Unigolion a grwpiau'n fwy ymwybodol o'r argyfwng hinsawdd a chamau i leihau effeithiau ar yr amgylchedd<br><br>Meithrin gweithredu amgylcheddol cadarnhaol<br><br>Sicrhau gwaddol amgylcheddol a chynaliadwy ar gyfer rhaglenni cyhoeddus | Pennaeth Arddangosfeydd<br><br>Pennaeth Digwyddiadau<br><br>Pennaeth Ymgysylltu a Gwirfoddoli | **Meintiol**<br>Nifer yn cyfranogi<br><br>**Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth<br>Gwerthuso (rhaglenni dethol) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sicrhau gwaddol amgylcheddol a chynaliadwy ar gyfer rhaglenni cyhoeddus** | Datblygu dulliau gweithio sy'n lleihau carbon ac yn ymgorffori arferion cynaliadwyedd wrth gynhyrchu a chyflawni rhaglenni cyhoeddus:<br>• Ystyried gwaddol rhediad arddangosfeydd er mwyn lleihau gwastraff<br>• Rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy wrth adeiladu arddangosfeydd a chynhyrchu graffeg, digwyddiadau, a'r rhaglen addysg<br>• Datblygu a chryfhau prosesau caffael presennol i helpu i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol | Datblygu polisi cynaliadwyedd a chanllawiau ar gyfer arfer gorau mewn datblygu rhaglenni cyhoeddus<br><br>Ymateb i argymhellion a ddarparwyd gan y Cydlynydd a'r Pwyllgor Datblygu Cynaliadwy | Cyflwyno polisi cynaliadwyedd newydd a chanllawiau ar gyfer arfer gorau mewn datblygu rhaglenni cyhoeddus<br><br>Gwneud cais am ddyfarniadau e.e. Dyfarniad Gŵyl Werdd ar gyfer yr Ŵyl Fwyd | | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus<br><br>Pennaeth Cyhoeddi<br><br>Pennaeth Digwyddiadau<br><br>Pennaeth Arddangosfeydd<br><br>Pennaeth Addysg | **Meintiol**<br>% lleihad carbon, fel rhan o'r targed corfforaethol<br><br>**Ansoddol**<br>Dadansoddiad partneriaeth |

# Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli

| Nodau | Gweithgareddau 2022/23 | Gweithgareddau 2023/24 | Gweithgareddau 2024-27 | Effeithiau | Arweinydd/ Arweinwyr | Mesur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bod yn amgylchedd sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia** | Lansio a chyflawni blwyddyn gyntaf Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion mewn partneriaeth â Chymdeithas Alzheimer's ar y cyd â phobl sy'n byw gyda dementia, a'u partneriaid a'u gofalwyr (pob amgueddfa)<br><br>Cydweithio gyda National Museums Liverpool ar fenter House of Memories | Datblygu a chyflawni ail flwyddyn Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion mewn partneriaeth â Chymdeithas Alzheimer's<br><br>Cydweithio gyda National Museums Liverpool ar fenter House of Memories<br><br>Blas ar raglenni:<br>• Cysur mewn Casglu | Datblygu a chyflawni trydedd flwyddyn Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion mewn partneriaeth â Chymdeithas Alzheimer's | Ymgysylltu â phobl sy'n byw gyda dementia, pobl y mae dementia yn effeithio arnynt a'u gofalwyr, a'u cefnogi<br><br>Pobl yn cael eu cefnogi i fyw bywydau iachach a hapusach fel rhan o raglen les i Gymru<br><br>Lles corfforol, meddyliol ac emosiynol cyfranogwyr yn gwella trwy bresgripsiynu cymdeithasol | Pennaeth Addysg<br><br>Arweinydd Strategol ar gyfer Iechyd a Lles | **Meintiol**<br>Nifer yn cyfranogi<br>Dadansoddiad demograffig o amrywiaeth ethnig, ddaearyddol ac ati<br><br>**Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth<br>Gwerthuso |
| **Cefnogi rhaglen les i Gymru yn unol â Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol Llywodraeth Cymru** | Nodi beth allai cynnig presgripsiwn cymdeithasol fod ar draws Amgueddfa Cymru, gan ganolbwyntio ar dair amgueddfa yn y lle cyntaf | Peilota cynnig presgripsiwn cymdeithasol mewn tair o'n hamgueddfeydd (yn amodol ar gyllid)<br><br>Sefydlu partneriaid a pheilota rhaglen yn ein hamgueddfeydd ar gyfer pobl sy'n dioddef problemau'n gysylltiedig ag iechyd meddwl (yn amodol ar gyllid) | Cyflawni a datblygu ein cynnig presgripsiwn cymdeithasol ymhellach (yn amodol ar gyllid) | | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus<br><br>Arweinydd Strategol ar gyfer Iechyd a Lles | **Meintiol**<br>Nifer yn cyfranogi<br><br>**Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Astudiaethau Achos<br>Dadansoddiad partneriaeth |

# Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol*

| Nodau | Gweithgareddau 2022/23 | Gweithgareddau 2023/24 | Gweithgareddau 2024-27 | Effeithiau | Arweinydd/ Arweinwyr | Mesur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella llwyfannau digidol a phresenoldeb ar y we ar gyfer rhaglenni cyhoeddus** | Darparu mewnbwn yn ôl y gofyn i ddatblygu a chyflawni strategaeth ddigidol<br><br>Peilota system docynnu ar gyfer digwyddiadau ac arddangosfeydd trwy lwyfannau Rheoli Manwerthu Mentrau (ERM)/Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) a systemau cysylltiedig<br><br>Creu gofod digidol ar gyfer adnoddau lles megis Cysur mewn Casglu<br><br>Adolygu gofod digidol ar gyfer rhaglenni cymunedol a gwirfoddoli<br><br>Ymgorffori brand newydd gyda'r rhaglen addysg ac ailystyried marchnata a'r wefan er mwyn gwella llywio<br><br>Gweithio gyda'r timau digidol a TGCh i ddatblygu seilwaith i alluogi cyflawni rhaglenni e-wirfoddoli<br><br>Darparu cyfleoedd strwythuredig i bobl ifanc greu cynnwys ar gyfer ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol gan adeiladu ar lwyddiant Instagram Bloedd | Cefnogi gweithredu cam darganfod y strategaeth ddigidol gyda phartneriaid a defnyddwyr<br><br>Datblygu cynllun ar gyfer ymgorffori system bwcio ysgolion i'r system CRM<br><br>Creu gofod digidol gwell ar gyfer rhaglenni cymunedol a gwirfoddoli | Cefnogi gweithredu'r strategaeth ddigidol gyda phartneriaid a defnyddwyr<br><br>Darparu mewnbwn i ddatblygu cynlluniau newydd ar gyfer cynnwys digidol wrth i dechnoleg ddigidol a gofynion defnyddwyr ddatblygu ac esblygu | Cynyddu a gwella cyrhaeddiad digidol gyda gwell dull llywio a mynediad i ddefnyddwyr | Pennaeth Addysg<br><br>Pennaeth Arddangos-feydd<br><br>Pennaeth Digwyddiadau<br><br>Pennaeth Ymgysylltu a Gwirfoddoli | **Meintiol**<br>Nifer sydd wedi ymgysylltu<br><br>**Ansoddol**<br>Dadansoddiad partneriaeth |

* Mae rhaglenni digidol yn rhai hybrid ac maent wedi'u cynnwys yn Addewid 2: Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cefnogi datblygiad profiadau digidol** | Darparu mewnbwn fel bo'r angen i ddatblygu a chyflwyno profiadau ar-lein a rhithwir, gan gynnwys rhai estynedig<br><br>Lansio tudalennau gwe Newid Amgueddfeydd i gyhoeddi dulliau gwaith a meddwl amgueddfaol Amgueddfa Cymru | Darparu mewnbwn fel bo'r angen i ddatblygu a chyflwyno profiadau ar-lein a rhithwir, gan gynnwys rhai estynedig<br><br>Archwilio cyfleoedd i ailbennu pwrpas cynnwys rhaglenni ar-lein a'u cynnwys yng ngham cynllunio rhaglenni yn y dyfodol<br><br>Parhau i ddatblygu Newid Amgueddfeydd i gynnwys gwaith wedi'i gomisiynu gan bartneriaid rhyngwladol | Archwilio cyfleoedd newydd ar gyfer datblygu profiadau digidol (yn amodol ar gyllid)<br><br>Parhau i ddatblygu Newid Amgueddfeydd i gynnwys gwaith wedi'i gomisiynu gan bartneriaid rhyngwladol | | Pennaeth Arddangos-feydd<br><br>Pennaeth Ymgysylltu a Gwirfoddoli<br><br>Pennaeth Cyhoeddi | **Meintiol**<br>Nifer sydd wedi edrych ac ymgysylltu<br><br>**Ansoddol**<br>Dadansoddiad partneriaeth Astudiaethau Achos |

# Creu cysylltiadau ar draws y byd*

| Nodau | Gweithgareddau 2022/23 | Gweithgareddau 2023/24 | Gweithgareddau 2024-27 | Effeithiau | Arweinydd/ Arweinwyr | Mesur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygu Cynllun Gweithredu Teithio Rhyngwladol ar gyfer Arddangos-feydd Amgueddfa Cymru** | Datblygu achos busnes Teithio Rhyngwladol | Datblygu taith ryngwladol o'r DU ac UDA yn canolbwyntio ar Gwen John, gan arddangos casgliadau Amgueddfa Cymru gyda phartneriaid yn UDA a'r Alban (yn amodol ar gyllid)<br><br>Lansio taflen wybodaeth arddangosfeydd teithiol rhyngwladol Amgueddfa Cymru (yn amodol ar gyllid) | Cyflwyno Gwen John fel arddangosfa ryngwladol yn 2026 (yn amodol ar gyllid)<br><br>Cydweithio â phartneriaid a lleoliadau rhyngwladol i gynllunio blaenraglen (yn amodol ar gyllid)<br><br>Cynllunio blaenraglen arddangosfeydd rhyngwladol ar gyfer 2026-30 (yn amodol ar gyllid) | Amgueddfa Cymru yn cael ei chydnabod fel amgueddfa o bwys byd-eang | Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus<br><br>Pennaeth Arddangos-feydd | **Meintiol**<br>Nifer yn cyfranogi<br>Incwm a godwyd<br><br>**Ansoddol**<br>Arolygon bodlonrwydd<br>Dadansoddiad partneriaeth |

* Mae ein digwyddiadau digidol a'n rhaglenni addysg hefyd yn creu cysylltiadau ar draws y byd. Mae data ac adrodd ar y rhaglenni hyn yn rhan o Nod 2: Ysbrydoli Creadigrwydd a Dysgu am Oes

## 7.2. Adnoddau

**Mae cyllideb weithredol flynyddol ar gyfer cyflawni'r rhaglen gyhoeddus yn cael ei dyrannu fel a ganlyn ar draws y rhaglenni: Digwyddiadau, Arddangosfeydd, Addysg, Ymgysylltu a Gwirfoddoli a Chyhoeddiadau.**

Mae cydweithio llwyddiannus gyda'r Adran Datblygu dros y pum mlynedd diwethaf wedi sicrhau cyllid allanol i gefnogi'r rhaglenni cyhoeddus, gan gynnwys Sefydliad Paul Hamlyn, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Sefydliad Garfield Weston, Cronfa Gasgliadau Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Sefydliad Clore Duffield, Treth Tirlenwi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Derbyniwyd cymorth ar gyfer projectau llai hefyd, er enghraifft, gan Sefydliad Waterloo (Addysg), Sefydliad y Teulu Ashley (Arddangosfeydd) ac Ymddiriedolaeth Austin a Hope Pilkington (Addysg).

Lle mae angen cyllid ychwanegol i gynnal rhaglen, nodwyd hyn yn y Cynllun Gweithredu. Sylwer yn benodol ar yr angen am gyllid ychwanegol ar gyfer Arddangosfeydd Rhyngwladol, rhaglenni iechyd a lles gan gynnwys presgripsiynu cymdeithasol, ac i ddatblygu ein gwaith ar ehangu ymgysylltiad â phobl ifanc.

# 7.3. Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae ein cynllun yn cyd-fynd â fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Wrth bennu'r camau gweithredu yn y cynllun hwn a chytuno arnynt, rydym wedi ystyried y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio. Wrth adolygu a monitro ein cynnydd gyda'r cynllun hwn, byddwn yn mesur y camau gweithredu yn erbyn pob un o'r saith nod.

| 7 Nod Llesiant | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
|---|---|
| **Cymru Lewyrchus** | • Cyfrannu at boblogaeth sydd wedi'i haddysgu'n dda trwy ehangu mynediad at ddiwylliant a threftadaeth<br>• Creu llwybrau at gyflogaeth trwy gyfleoedd â thâl ar gyfer pobl ifanc (Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru), interniaethau, a lleoliadau ar gyfer unigolion<br>• Cynlluniau ar gyfer sero carbon ac effeithiau amgylcheddol ehangach wedi'u hymgorffori yng ngwaith dylunio a chynnal rhaglenni |
| **Cymru Gydnerth** | • Unigolion a grwpiau yn fwy ymwybodol o'r argyfwng hinsawdd a chamau gweithredu i leihau effeithiau ar yr amgylchedd<br>• Mabwysiadu camau gweithredu amgylcheddol cadarnhaol |
| **Cymru sy'n Fwy Cyfartal** | • Adlewyrchu annhegwch mynediad at brofiadau Amgueddfa Cymru ar gyfer pobl ym mhob rhan o Gymru yn ein penderfyniadau<br>• Ymgysylltiad ehangach ag unigolion a grwpiau, gan adlewyrchu profiadau a hunaniaethau pobl trwy ddiwylliant a threftadaeth<br>• Cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd, pobl F/fyddar a phobl anabl, pobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol, pobl sy'n nodi eu bod yn LHDTC+, ac eraill wir yn rhan o ddatblygu gwaith Amgueddfa Cymru<br>• Mecanweithiau cymorth a strwythurau angenrheidiol i alluogi hyn i ddigwydd, yn fewnol ac yn allanol, wedi'u creu |
| **Cymru Iachach** | • Buddion llesiant ymgysylltu â diwylliant a threftadaeth yn cael eu hymestyn i unigolion a grwpiau cymdeithasol<br>• Unigolion a grwpiau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â datblygu a chynnal rhaglenni yn teimlo perchnogaeth |
| **Cymru o Gymunedau Cydlynus** | • Cyfranogwyr yn cydweithio â ni fel crewyr, rhai sy'n gwneud penderfyniadau a galluogwyr<br>• Lleisiau a chymunedau nas clywir yn aml yn llywio cynnwys, datblygiad a chynnal rhaglenni<br>• Grym gweithredu cymunedau yn cael ei werthfawrogi a'i barchu<br>• Fframweithiau ar gyfer gweithio cydsyniol ar waith, dwyochredd ac anghydraddoldeb pŵer wedi'u cyfleu |

| | |
|---|---|
| **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** | • Cyfleoedd i bobl ymgysylltu â diwylliant a threftadaeth<br>• Cyfleoedd i ymgysylltu â diwylliant a chreu diwylliant trwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a dysgu Cymraeg, a dull lluosieithog wedi'i fabwysiadu<br>• Cyfleoedd i ymgysylltu drwy Iaith Arwyddion Prydain ac ystod o ieithoedd cymunedol |
| **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang** | • Diwylliant a threftadaeth Cymru, a'u harwyddocâd byd-eang, yn cael eu cydnabod a'u dathlu'n rhyngwladol |

| Ffyrdd o Weithio | Sut mae hyn wedi'i gymhwyso |
|---|---|
| **Atal** | • Mewnbwn gan staff a phartneriaid i'r amcanion a gweithgareddau<br>• Amcanion yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mynediad ac yn dileu rhwystrau sy'n atal ymgysylltiad gan unigolion a grwpiau penodol<br>• Archwiliadau a gwerthusiad o raglenni blaenorol yn sail i'r rhaglenni cyfredol<br>• Bydd gwerthuso ac ymchwilio i ymgysylltiad cyfredol pobl ifanc a rhaglenni iechyd a lles yn sail i'n cynllunio yn y dyfodol |
| **Hirdymor** | • Mae'r cynllun dros bum mlynedd ac yn cydnabod yr ymrwymiad hirdymor at ddarparu'r adnoddau angenrheidiol |
| **Cydweithio** | • Y strategaeth a'r cynllun wedi'u llywio gan ystod o bartneriaid<br>• Partneriaethau cydweithredol ag ystod o sefydliadau gwahanol eisoes yn bodoli a byddant yn cael eu datblygu ymhellach<br>• Disgwylir y bydd partneriaethau a chydweithrediadau newydd yn ffurfio wrth i'r gwaith fynd rhagddo |
| **Integreiddio** | • Y strategaeth a'r cynllun wedi'u llywio drwy gydweithio, ac yn gydnaws ag Amgueddfa Cymru 2030, y Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad, y Llythyr Cylch Gwaith, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, y Cwricwlwm newydd i Gymru a chymdeithas decach (Deddf Cydraddoldeb, 2010)<br>• Sicrhau bod y pum ffordd o weithio wedi'u cymhwyso mewn ffordd sy'n cefnogi integreiddio ar draws dyletswyddau |
| **Cynnwys** | • Ymrwymo i ymgysylltiad cyhoeddus pellach wrth gyflawni'r cynllun a dylunio projectau, rhaglenni a gwasanaethau sy'n sbarduno'r amcanion |